



**Adroddiad yr Ymgynghoriad
mewn perthynas â'r Cynnig i Gynyddu Capasiti Disgyblion
yn
Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd**

Tachwedd 2021

Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 2SD

Cynnwys

1. Rhagarweiniad	3
2. Ymgynghoriad Ffurfiol	3
3. Cyfarfodydd	4
4. Ymatebion i'r Ymgynghoriad	4
5. Ffurflenni Ymateb	5
6. Ymateb gan Gyrff Statudol	5
6.1 Cyngor Sir Ddinbych	5
6.2 ESTYN	6
ATODIAD A	10
ATODIAD B	12
ATODIAD C	12
ATODIAD D	14
ATODIAD E	17
ATODIAD F	24

1. Rhagarweiniad

- 1.1 Mae Corff Llywodraethu Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd wedi cwblhau cyfnod ymgynghori ffurfiol mewn perthynas â'r cynnig i gynyddu'r capasiti o 105 i 126 o ddisgyblion llawn amser yn Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd o 31 Awst 2022.
- 1.2 Byddai'r cynnydd hwn yn golygu cynyddu'r niferoedd a dderbynnir ym mhob grŵp blwyddyn o 15 i 18 o ddisgyblion ar 1 Medi 2022.
- 1.3 Dechreuodd yr ymgynghoriad ffurfiol ar 10 Medi 2021 ac fe ddaeth i ben ar 22 Hydref 2021.
- 1.4 Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad. Yn y ddogfen hon, mae'n rhaid i ni:
 - Grynhoi pob un o'r problemau a godwyd gan bobl yr ydym wedi ymgynghori â hwy ac sydd wedi ysgrifennu atom;
 - Dangos ein hymateb i'r problemau hynny; ac
 - Amlinellu barn Estyn am fuddion cyffredinol yr hyn rydym yn ei ystyried.
- 1.5 Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried yr adroddiad hwn cyn penderfynu a ddylid symud ymlaen i'r cam hysbysiad statudol neu beidio.

2. Ymgynghoriad Ffurfiol

- 2.1 Anfonwyd negeseuon e-bost i hysbysu pobl o gyfnod yr Ymgynghoriad Ffurfiol a ble i gael mynediad at y ddogfen ymgynghori. Gellir gweld rhestr lawn o'r derbynwyr yn [Atodiad A](#).
- 2.2 Cyhoeddwyd dogfennau'r Ymgynghoriad Ffurfiol ar wefan yr ysgol ar 10 Medi 2021. Gallwch weld llun o'r dudalen we yn [Atodiad B](#).
- 2.3 Crëwyd fersiwn sy'n addas i blant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori hefyd.
- 2.4 Cyhoeddwyd yr holl ddogfennaeth, gan gynnwys y ddogfen Ymgynghori Ffurfiol, Asesiad o Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg, dogfen ymgynghori sy'n addas i Blant a Phobl Ifanc a fersiwn electronig o'r ffurflenni ymateb ar wefan yr ysgol. Roedd pob dogfen ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Darparwyd gwybodaeth hefyd ar sut i wneud cais am gopiâu caled o'r dogfennau pe bai unrhyw ymgynghorai'n dymuno cael copi corfforol o'r dogfennau.
- 2.5 I helpu ac annog pobl i rannu eu barn, crëwyd dogfennau ymateb (Ffurflenni Ymateb i'r Ymgynghoriad) Roedd y Ffurflenni Ymateb yn rhan o'r Dogfennau Ymgynghori ac felly fe'u cyhoeddwyd ar wefan yr ysgol hefyd.

Addaswyd y Ffurflenni Ymateb i'r Ymgynghoriad i arolwg ar-lein; cyhoeddwyd dolen i'r arolwg hefyd ar wefan yr ysgol a chynnwys dolen o fewn y ddwy fersiwn i'r ddogfen ymgynghori.

3. Cyfarfodydd

3.1 Cynigwyd sesiynau ymgynghori fel a ganlyn:

Dyddiad	Cyfarfod
6 Hydref 2021	Ymgynghoriad Staff
6 Hydref 2021	Ymgynghoriad Cyngor Ysgol
13 Hydref 2021	Sesiynau Gwybodaeth Ar-lein (drwy apwyntiad)

3.2 Mae crynodeb o'r pwyntiau a godwyd yn y cyfarfodydd hyn a'r ymatebion wedi'u cynnwys yn [Atodiad C](#).

3.3 Trefnwyd sesiynau ymgynghori ar gyfer Cyngor Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd, gan fod yr ysgol ynghlwm â'r cynigion. Gellir dod o hyd i grynodeb o'r sesiwn yn [Atodiad D](#).

3.4 Fel rhan o'r trefniadau ymgynghori â disgyblion, darparwyd ffurflen ymateb addas i'r oedran arbennig ar gyfer disgyblion hefyd. Derbyniwyd cyfanswm o 10 ffurflen gan ddisgyblion yn ystod y sesiwn Cyngor Ysgol. Mae crynodeb o'r sylwadau a'r cwestiynau a godwyd gan ddisgyblion ar y ffurflen ymateb Plant a Phobl Ifanc a'r sesiwn ymgynghori hefyd ar gael yn [Atodiad D](#).

4. Ymatebion i'r Ymgynghoriad

4.1 Cafwyd cyfanswm o 17 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori, a oedd yn cynnwys ymatebion gan Estyn a'r Awdurdod Lleol.

4.2 Roedd y gefnogaeth i'r cynnig fel a ganlyn:

	Cyfanswm
O blaid y cynnig	3
Yn erbyn y cynnig	3
Heb nodi'r naill ffordd neu'r llall	11
Cyfanswm	17

4.3 Roedd yr ymatebwyr fel a ganlyn:

Ymateb fel:	Nifer
Disgybl	10
Aelod o'r Gymuned	3
Llywodraethwr ysgol	2
Arall	2
Cyfanswm y cysylltiadau	17

4.4 Mae [Atodiad E](#) yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd drwy lythyr a negeseuon e-bost.

5. Ffurflenni Ymateb

5.1 Lluniwyd y ffurflenni ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol er mwyn penderfynu:

- p'un a oedd pobl o blaid y Cynigion neu beidio;
- p'un a oedd ganddynt unrhyw opsiynau amgen i'r cynnig presennol yr hoffent i'r cynigwyr eu hystyried; a
- ph'un a ydynt yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau eraill

5.2 Mae crynodeb o'r ymatebion i'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad Ffurfiol wedi'i amlinellu yn [Atodiad F](#) ynghyd ag ymateb y Cynigwyr.

6. Ymateb gan Gyrrff Statudol

6.1 Cyngor Sir Ddinbych

Sylw/Cwestiwn	Ymateb
Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Awdurdod Lleol wedi gweld galw cynyddol am leoedd, ac mae hynny yn ei dro wedi golygu bod yn rhaid i'r adran dderbyniadau wrthod disgyblion er mai Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yw'r ysgol addas agosaf iddyn nhw. Mae hyn hefyd wedi arwain at fwy o ddisgyblion na nifer y lleoedd a mwy o apeliadau.	Cytuno
Yn ystod y cam dylunio a'r ymgynghoriad cyn cynllunio ar gyfer adeilad newydd yr ysgol, roedd yr	Cytuno

<p>adborth a dderbyniwyd yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr adeilad newydd yn hyblyg ac yn gallu cwrdd â'r galw ychwanegol yn sgil datblygiad Cae Mair, a oedd eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio. Roedd y dyluniad a ddewiswyd yn cydnabod y galw ychwanegol tebygol drwy ddarparu gofod hyblyg yn yr ysgol heb fod angen buddsoddiad cyfalaf ychwanegol.</p>	
<p>Nid yw'r Awdurdod Lleol yn rhagweld y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar yr ysgolion cyfagos a nodir yn y cynnig gan fod y cynnydd yn nifer y lleoedd yn seiliedig ar ddyraniadau dewis cyntaf, amcanestyniadau disgyblion a chyfrifiadau cynllunio o ganlyniad i'r datblygiadau wrth ymyl safle'r ysgol.</p>	Cytuno

6.2 ESTYN

Paratowyd yr ymateb hwn gan Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod cysylltiedig, mae gofyn i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn.

Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i Estyn weithredu'n unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion.

Felly, fel corff ymgynghorol, mae Estyn wedi darparu eu barn ar fuddion cyffredinol y cynigion trefniadaeth ysgol yn unig.

Sylw/Cwestiwn	Ymateb
<p>Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal safon darpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf. Fodd bynnag, nid oes digon o wybodaeth am y safonau cyfredol.</p>	Amherthnasol
<p>Mae'r corff llywodraethol wedi cynnig sail resymegol addas ar gyfer y cynnig. Mae'n amlinellu'n glir fanteision cynyddu nifer derbyn y disgyblion. Fodd</p>	<p>Mae'r capasiti o 126 o ddisgyblion llawn amser a gynigir ar gyfer disgyblion statudol rhwng 4 ac 11 oed. Nid yw'r ddarpariaeth meithrin (rhan amser) yn</p>

<p>bynag, mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cynyddu nifer y disgyblion yn yr adran feithrin, sy'n derbyn nifer disgyblion y tu hwnt i'r nifer sydd wedi'i datgan yn nheitol y cynnig.</p> <p>Mae'r cynnig yn rhoi sylw priodol i gapasiti presennol yr ysgol ac yn rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith bosibl ar nifer y disgyblion mewn ysgolion lleol eraill. Mae'r ysgol wedi'i lleoli mewn adeilad newydd sydd â'r capasiti i gynyddu nifer y disgyblion i 126. Fodd bynnag, os bydd y corff llywodraethol yn cynyddu'r niferoedd yn y dosbarth meithrin, fel yr amlinellir yn y cynnig, bydd nifer y disgyblion yn fwy na 126. Nid yw'n nodi'n ddigon clir y trefniadau ar gyfer darpariaeth pe byddai'r ysgol yn mynd y tu hwnt i'w capasiti.</p>	<p>rhan o'r capasiti hwn. Mae'r cynnig yn nodi yn Adran 7 y byddai'r ddarpariaeth Meithrin yn cynyddu o 3 yn unol a'r niferoedd derbyn cyhoeddedig newydd, sef 18 ar gyfer Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd. Byddai hyn yn ein galluogi i ddarparu ar gyfer rhagor o blant yn Llanfair Dyffryn Clwyd a'r ardaloedd cyfagos, lle mae'r galw am leoedd wedi cynyddu.</p> <p>Mae'r cynnig yn cyfeirio at leoedd meithrin er mwyn rhoi gwybod i ymgynghoreion sut y gellir strwythuro dosbarthiadau ac i ddarparu cyd-destun o'r galw yn y derbyniadau diweddar ar gyfer blwyddyn ysgol 2021-22. Amlinellir y wybodaeth hon yn adran 3 o'r ddogfen ymgynghori.</p> <p>Nid yw'r Corff Llywodraethu o'r farn y byddai'r cynnydd mewn disgyblion meithrin yn cael effaith ar allu'r ysgol i ddarparu ar gyfer 126 o ddisgyblion llawn amser.</p>
<p>Mae'r corff llywodraethol yn rhoi disgrifiad manwl o'r amserlen ragamcanol ar gyfer gweithdrefnau statudol a rhoi'r cynigion ar waith.</p> <p>Mae'r cynigiwr yn amlinellu'n deg fanteision ac anfanteision disgwylidig y newid. Mae wedi ystyried yr effaith ar ysgolion lleol eraill a'r gymuned yn dda. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau i gydweithio â Chylch Meithrin Lleol i gynnal gofal cofleidiol i ddisgyblion meithrin.</p>	<p>Cytuno</p>
<p>Gan mwyaf, mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth ddigonol i beryglon. Er bod y cynnig yn ystyried trefniadau'r ystafelloedd dosbarth ar hyn o bryd yn dda, nid yw'n rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith cynyddu nifer y disgyblion ar ddarpariaeth feithrin.</p>	<p>Mae'r cynnig yn nodi yn Adran 7 o'r ddogfen ymgynghori y byddai'r ddarpariaeth Meithrin yn cynyddu o 3 yn unol â'r niferoedd derbyn cyhoeddedig newydd, sef 18.</p> <p>Mae Adran 7 hefyd yn nodi beth fyddai'r effaith ar y ddarpariaeth feithrin a sut mae'r ysgol yn gweithio gyda'r Cylch Meithrin i ddarparu gofal 'cofleidiol' i</p>

	<p>ddisgyblion meithrin yn y bore a'r prynhawn, byddai hyn yn darparu gofal plant Cymraeg ychwanegol i rieni. Ystyriwyd hyn yn yr Asesiad o Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg hefyd. Mae'r corff llywodraethu o'r farn na fydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth feithrin.</p>
<p>Mae'r cynnig yn ystyried ystod o ddewisiadau amgen addas ac yn cynnig sail resymegol addas ar gyfer y canlyniad a ddymunir.</p>	<p>Cytuno</p>
<p>Mae'r cynigiwr yn rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith newidiadau ar drefniadau teithio dysgwyr a hygyrchedd darpariaeth. Mae'r cynnig yn crybwyll bod yr awdurdod lleol wedi arfer yr hawliau disgresiwn a roddir iddo dan ddarpariaeth Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Pennwyd y maen prawf cymhwysedd o ran pellter cerdded i ddysgwyr i'w hysgol addas agosaf fel 2 filltir, fel sy'n ofynnol dan y mesur. Mae'r awdurdod lleol yn darparu cysylltiad i gerddwyr â'r datblygiad tai newydd er mwyn galluogi llwybr cerdded diogel i safle'r ysgol.</p>	<p>Cytuno</p>
<p>Mae'r corff llywodraethol wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith y cynigion ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol. Mae'r cynnig yn nodi cynnydd posibl yn nifer y lleoedd dwyieithog i ddisgyblion. Mae'r graddau y mae'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol yn llai amlwg.</p>	<p>Bydd creu llefydd ychwanegol yn Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn darparu rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion gael mynediad at ddarpariaeth ddwyieithog.</p> <p>Caiff pob disgybl eu dysgu yn yr un dosbarth a phrif iaith y sefydliad yw Cymraeg. Yn ogystal â hynny, mae'r ysgol hefyd yn darparu ar gyfer disgyblion sy'n dechrau eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg ac y newid i'r Gymraeg wrth iddynt symud drwy'r ysgol.</p> <p>Mae hyn yn cyfrannu at Ddeiliant 1 o Gynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg presennol Sir Ddinbych – Rhagor o ddisgyblion i dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn iddynt droi'n 7 oed.</p>

	Yn ogystal â hynny, mae hyn yn cefnogi uchelgais Sir Ddinbych i bob disgybl ac unigolyn ifanc yn Sir Ddinbych adael addysg llawn amser yn gymwys ac yn hyderus yn Gymraeg ac yn Saesneg.
Mae'r cynigiwr yn nodi costau ariannol y cynnig yn dda. Mae'r corff llywodraethol yn nodi costau ychwanegol posibl a referniw i'r gyllideb. Mae'n awgrymu y bydd y rhagamcanion hyn yn gwella sefyllfa ariannol yr ysgol yn y tymor hir.	Cytuno
Wrth ystyried effaith y cynnig ar ansawdd deilliannau, darpariaeth, ac arweinyddiaeth a rheolaeth, mae'r corff llywodraethol wedi rhestru canlyniadau arolygiadau diweddaraf Estyn, a chanlyniadau categoreiddio Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020. Yn ei arolygiad diwethaf ym mis Rhagfyr 2015, barnwyd bod Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn ysgol dda â rhagolygon gwella da. Ym mis Ionawr 2020, roedd yr ysgol yn y categori melyn. Mae hyn yn diffinio'r ysgol fel ysgol effeithiol sy'n gwybod beth mae angen iddi ei wneud i wella. Fodd bynnag, nid oes barn ar ansawdd yr arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol wedi'i chynnwys yn y cynnig. Mae hwn yn hepgoriad pwysig.	Yn unol â'r cod trefniadaeth ysgolion, mae'r corff llywodraethu wedi nodi'r wybodaeth sydd ei hangen yn adran 8 ac wedi ystyried yr effaith ar drefniadau arwain a rheoli yn adran 8.3 Mae'r corff llywodraethu o'r farn ein bod, fel Tîm Arwain a Rheoli'r ysgol, wedi darparu'r wybodaeth sydd ei hangen yn unol â'r cod ac wedi ystyried yr effaith bosibl ar y meysydd uchod. Mae'r cynnig yn ceisio cynnal y safonau hyn gyda'r nod o'u cryfhau a'u gwella i'r dyfodol.
Mae'r cynnig wedi rhoi ystyriaeth addas i wybodaeth o adroddiadau diweddaraf Estyn ar gyfer pob ysgol y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arni.	Cytuno
Mae'r corff llywodraethol yn rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith y cynnig ar gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen ac ym mhob cyfnod allweddol. Mae'r cynigiwr yn awgrymu y gallai rhoi'r cynnig ar waith gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru.	Cytuno
Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith y cynigion ar blant ag anghenion addysgol arbennig. Mae	Mae'r Corff Llywodraethu'n cydnabod nad yw prydau ysgol am ddim wedi cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad o

<p>wedi cynnal asesiad priodol o'r effaith ar gydraddoldeb, ac mae o'r farn na fydd effaith niweidiol ar unrhyw grŵp. Ni nodwyd yr effaith ar y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.</p>	<p>effaith. Ar hyn o bryd, mae canran y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn yr ysgol yn isel.</p> <p>Nid yw'r Corff Llywodraethu'n rhagweld y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim o ganlyniad.</p> <p>Fodd bynnag, byddwn yn adolygu hyn yn ôl yr angen yn seiliedig ar unrhyw gynnyddiadau posibl yn y dyfodol.</p>
<p>Mae'r cynnig yn nodi'n deg na fydd yn tarfu llawer ar ddisgyblion.</p>	<p>Cytuno</p>

ATODIAD A

Rhestr Hysbysu'r Ymgynghoriad

Budd-ddeiliaid	Nifer y derbynwyr
Rhieni disgyblion Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd	104
Athrawon a staff cefnogi Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd	13
Corff Llywodraethu a Phenaethiaid Ysgol Pentrecelyn, Ysgol Carreg Emlyn, Ysgol Llanbedr ac Ysgol Dyffryn Ial.	8
Esgobaeth Llanelwy yr Eglwys yng Nghymru ac Esgobaeth Gatholig Rhufeinig Wrecsam	2
Penaethiaid a Chadeirydd Llywodraethwyr pob ysgol yn Sir Ddinbych (Ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig)	102
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir Ddinbych a Phartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant	1
Darparwyr meithrin annibynnol yn ardal Rhuthun	5
Cynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych	46
Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol Lleol a Rhanbarthol	6

Cyngor Cymuned Llanfair Dyffryn Clwyd	1
Cyngor Cymuned Llanelidan	1
Cyngor Cymuned Efenechtyd	1
Cyngor Tref Rhuthun	1
Llywodraeth Cymru	1
Estyn	1
Undebau Llafur staff addysgu a chefnogi perthnasol	8
Gwasanaeth Effeithiolrwydd Ysgolion (GwE)	2
Comisiynydd y Gymraeg	1
Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	1
Cyngor Sir y Fflint	1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam	1
Cyngor Sir Ddinbych	1
Cyfanswm	308

ATODIAD B

Copi o wefan a tudalen ymgynghori'r ysgol

Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd

Ymgynghoriad

Cynnig i Gynyddu Capasiti Disgyblion
Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd

Yn dilyn ymgynghori ag Esgobaeth St Asaph, mae Corff Llywodraethu Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd wedi cymeradwyo ymgynghoriad ynglŷn â'r cynnig canlynol;

Mae Corff Llywodraethu Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn cynnig cynyddu capasiti disgyblion llawn amser o 105 i 126 yn Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd o 31 Awst 2022.

Rydym wedi cynhyrchu dogfen ymgynghori sy'n esbonio'r rhesymau y tu ôl i'r cynnig. Gallwch weld copi o'r ddogfen drwy [glicio yma](#).

Rydym wedi cynhyrchu fersiwn plant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori y gallwch ei darllen drwy [glicio yma](#).

Cliciwch [yma](#) i gael mynediad i'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg.

I ofyn am gopi caled o'r ddogfen ymgynghori, anfonwch e-bost at ymgyngoriadysgollanfair@sirddinbych.gov.uk

Mae'r cyfnod ymgynghori yn rhedeg o ddydd Gwener 10 Medi 2021 i ddydd Gwener 22 Hydref 2021 yn gynhwysol.

Gallwch rannu eich barn am y cynnig drwy:

- [glicio yma](#) ar gyfer yr arolwg ar-lein,
- argraffu adran ymateb y ddogfen ymgynghori berthnasol (ar dudalen gefn y ddau fersiwn) ac anfon eich ymateb wedi'i gwblhau atom,
- anfon e-bost i ymgyngoriadysgollanfair@sirddinbych.gov.uk neu
- ysgrifennu atom yn y cyfeiriad canlynol:
Ymgynghoriad Ysgol Llanfair, Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2SD

Llanfair Dyffryn Clwyd © 2020 Website designed and maintained by [Cyfron Cyf](#)

ATODIAD C

Crynodeb o Sylwadau / Cwestiynau a godwyd yn y sesiynau Ymgynghori

Cyfarfod Staff – 6 Hydref 2021

Sylw/Cwestiwn	Ymateb
A oes digon o le yn y dosbarthiadau i ddarparu ar gyfer nifer o ddisgyblion sy'n ymfyn cefnogaeth un i un?	Mae'r dosbarthiadau wedi'u cynllunio'n unol â chanllawiau BB99. Mae hyn yn golygu bod digon o le mewn dosbarthiadau ar gyfer capasiti'r ysgol a chefnogaeth un i un. Caiff disgyblion sydd â gofynion cefnogaeth ychwanegol eu hasesu'n unigol a darperir ar gyfer anghenion pob disgybl o fewn amgylchedd y dosbarth gyda chefnogaeth gan Adran Addysg Sir Ddinbych.

<p>Sut fydd niferoedd yn cael eu rheoli wrth i nifer y disgyblion gynyddu mewn rhai grwpiau blwyddyn?</p>	<p>Mae'n anodd rhagweld pa effaith fydd y cynnydd mewn capasiti yn ei chael ar flynyddoedd hŷn yr ysgol, ond mae'n debygol y bydd y dosbarth meithrin a derbyn yn cyrraedd capasiti llawn ym mis Medi 2022 os yw'r niferoedd ymgeisio yn debyg i'r rhai yn 2021. Byddai hyn yn golygu, i ddechrau, y byddai blwyddyn 1 a 2 yn cael eu dysgu gyda'i gilydd drwy'r dydd, gyda chyfanswm o 30 yn y dosbarth. Byddai'n rhaid i ni wahanu'r dosbarth meithrin i sesiynau bore a phrynhawn ac rydym wedi trafod hyn â'r Cylch i sicrhau ein bod yn gallu darparu gofal 'cofleidiol' heb amharu ar allu'r Cylch i ddarparu eu gwasanaeth. Os bydd disgyblion hŷn yn yr ysgol yn ymgeisio, sydd â 27+ yn y dosbarthiadau, byddai hyn yn cael effaith ac fe allai olygu y bydd angen cyflogi athro/athrawes arall. Byddai'n rhaid ystyried hyn fesul achos er mwyn gwerthuso'r sefyllfa ac ymgynghori â staff, a'r Awdurdod Lleol.</p>
<p>Sut fydd y disgyblion yn cael eu rhannu a sut fydd y trefniadau dosbarth newydd yn cefnogi darpariaeth y cwricwlwm newydd.</p>	<p>Bydd angen meini prawf clir ar gyfer rhannu grwpiau blwyddyn, byddai'r meini prawf yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i – ddilyniant dysgwyr, elfennau cymdeithasol h.y. grwpiau ffrindiau.</p> <p>Mae'n bwysig nodi bod y cwricwlwm newydd yn seiliedig ar gyfnod ac nid oedran y dysgwr, felly rhoir pwyslais ar gynnydd y dysgwr gan ganiatáu i ymarferwyr gynllunio dysgu ac addysgu yn seiliedig ar hyn.</p>
<p>Mae'r cynnig yn rhywbeth cadarnhaol gan fod gan yr ysgol adeilad newydd ac mae nifer y disgyblion hefyd yn cynyddu.</p>	<p>Cytuno</p>
<p>Mae'r ysgol wedi gweithio yn y fformat hwn (gyda grwpiau blwyddyn cymysg) o'r blaen ac mae wedi bod yn llwyddiannus.</p>	<p>Cytuno – mae Ysgol Llanfair eisoes yn gweithio gyda grwpiau blwyddyn cymysg ac ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar sut mae'r ysgol yn gweithio ar hyn o bryd.</p>

Sesiwn wybodaeth ar-lein 13 Hydref 2021

Amlinellwyd manylion y sesiynau gwybodaeth o fewn y ddogfen ymgynghori. Cysylltodd y Corff Llywodraethu ag ymgynghoreion dros e-bost ar 24 Medi 2021 i gadarnhau'r manylion ar sut i archebu apwyntiad yn y sesiwn wybodaeth ac anfonwyd e-bost i'w hatgoffa o hyn ar 11 Hydref 2021. Fodd bynnag, ni wnaeth yr ymgynghoreion gymryd y cyfle i archebu apwyntiad ar gyfer y sesiwn wybodaeth, felly ni chafwyd unrhyw ymatebion.

ATODIAD D

Canfyddiadau'r ymgynghoriad â Chyngor Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd

1. Rhagarweiniad

- 1.1 Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i Gorff Llywodraethu Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd (y cynigydd) wneud trefniadau priodol i ymgynghori â disgyblion unrhyw ysgol a effeithir gan gynigion trefniadaeth ysgol.
- 1.2 Mae'r cod yn nodi bod yn rhaid i'r ymgynghoriad gynnwys ymgynghori â chynghorau ysgol yr ysgolion a effeithir ac ymgynghori â disgyblion unigol, lle bo hyn yn briodol ac yn ymarferol.
- 1.3 Mae hyn yn ofynnol o dan Erthygl 12 yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n nodi bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i leisio eu barn mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir gan oedolion sy'n cael effaith ar eu bywydau.

2. Dull Ymgynghori

- 2.1 Cyhoeddodd Corff Llywodraethu Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ddwy fersiwn ar wahân o'r ddogfen ymgynghori i Blant a Phobl Ifanc. Darparwyd copïau o'r ddogfen Plant i ddisgyblion yn yr ysgol a rhoddwyd gwybod iddynt ble i gael mynediad at y ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb ar wefan yr ysgol.
- 2.2 Trefnwyd cyfarfod ymgynghori gan Gorff Llywodraethu Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd, a hwyluswyd gan Gyngor Sir Ddinbych gyda'r cyngor ysgol. Cynhaliwyd y cyfarfod gyda Chyngor Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ar 6 Hydref 2021.

3. Ymateb i'r Ymgynghoriad

- 3.1 Roedd y sesiynau'n anelu at fod mor ddiddorol â phosibl, gan ganolbwyntio ar yr elfennau hyn:

- **Beth oedd barn y disgyblion am yr ysgol ar hyn o bryd?** (sesiwn torri'r îâ)
Gofynnwyd i'r cyngor ysgol feddwl am un gair i ddisgrifio Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd. Gallai fod mewn perthynas â'r adeilad, amgylchedd yr ysgol neu eu barn gyffredinol am yr ysgol. Rhannodd y grŵp eu gair a'r rheswm y dewiswyd y gair hwnnw. Rhoddodd hyn gyfle i unigolion archwilio beth oedd Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn ei olygu iddyn nhw ac ystyried a fyddai'r cynnig yn cael effaith ar beth roeddent yn ei deimlo, ei fwynhau neu'n ansicr ohonynt am yr ysgol.
- **Sut maent yn teimlo am y posibilrwydd o rannu eu dosbarth gyda phlant o'r flwyddyn iau neu hŷn?** Cafodd y ddisgyblion gyfle i drafod eu barn ac unrhyw bryderon am y posibilrwydd o rannu eu dosbarth gyda phlant o'r flwyddyn iau neu hŷn, a gofyn unrhyw gwestiynau am y newidiadau arfaethedig er mwyn deall yn iawn beth fyddai'r effaith. Cymerwyd cofnodion o'r drafodaeth, ac fe wnaeth y disgyblion hefyd nodi sylwadau ar eu ffurflen ymateb.
- **A oedd y disgyblion yn awyddus i weld unrhyw beth arall yn digwydd oni bai am yr hyn a gynigwyd?** - Rhoddwyd cyfle i bob disgybl gynnig awgrymiadau gwahanol i'r cynnig, nodi unrhyw gwestiynau neu bryderon, a chael trafodaeth agored neu eu nodi'n ddiennw. Aeth yr hwyluswyr i'r afael ag unrhyw bryderon/cwestiynau a godwyd.

4. Ffurflenni Ymateb Plant a Phobl Ifanc

- 4.1 Derbyniom 10 ymateb i'r ffurflenni Plant a Phobl ifanc. Cwblhawyd y ffurflenni fel rhan o sesiwn y cyngor ysgol, a gweler crynodeb o'r ymatebion isod:

5. Ymatebion o sesiwn y cyngor ysgol

- 5.1 Beth oedd barn y disgyblion am yr ysgol ar hyn o bryd?

- Llawen
- Hwyllog x 2
- Arbennig
- Croesawgar
- Dymunol x 2
- Diogel
- Cymuned
- Hyfryd

5.2 Sut wyt ti'n teimlo am Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn cael mwy o ddisgyblion?

- Hwyl
- Cyffrous
- Rwy'n credu y bydd yn ddiddorol ac yn hwyl
- Da iawn, ond nid oes arnaf eisiau i bethau newid oherwydd rwy'n hoffi'r rheolau presennol
- Rwy'n credu ei fod yn syniad da
- Rhyfedd, ond cyffrous
- Da
- Hapus
- Edrych ymlaen at ddysgu gyda rhagor o ddisgyblion
- Edrych ymlaen at gael rhagor o blant yn yr ysgol
- Bydd yn ffordd dda i ni ddod i adnabod pobl newydd
- Bydd rhagor o bobl i chwarae â nhw
- Bydd yn hwyl ac yn gyffrous
- Byddai'n rhaid gwneud yn siŵr bod digon o le yn y dosbarth i staff sydd o bosibl angen helpu plant sydd angen cymorth 1 i 1

5.3 Sut wyt ti'n teimlo am y posibilrwydd o rannu dosbarth efo plant sydd flwyddyn yn hŷn neu flwyddyn yn ieuengach na thi?

- Rwy'n meddwl y bydd yn rhyfedd, ond yn hwyl
- Byddai'n teimlo'n rhyfedd, ond yn braf cael plant newydd
- Od oherwydd efallai na fydd ffrindiau'n gallu bod gyda'i gilydd
- Bydd yn wahanol
- Hapus
- Bydd modd i ni wneud mwy o ffrindiau a dod i adnabod mwy o blant yn yr ysgol
- Da oherwydd gallwn ddysgu pethau newydd iddynt, ond efallai na fyddant yn gwybod y rheolau
- Rwy'n credu y byddai hynny'n iawn.
(rydym yn cymysgu dosbarthiadau yn barod beth bynnag)
- Braf a chyffrous
- Rwy'n teimlo'n iawn am y peth

5.4 Oes yna unrhyw beth arall fyddet ti'n hoffi ei weld yn digwydd yn hytrach na beth sydd yn ein cynllun?

- Ni chafwyd unrhyw awgrymiadau ychwanegol ar y cynnig yn y drafodaeth grŵp na'r ffurflenni ymateb.
- Gwnaethpwyd awgrymiadau i wella cyfleusterau ac offer dysgu'r ysgol, megis cynyddu'r offer mewn ardaloedd awyr agored a darparu offerynnau cerddorol gwahanol.
Bydd yr awgrymiadau hyn yn cael eu rhannu â'r ysgol.

5.5 Cododd disgyblion y pwynt canlynol hefyd:

Sylw/Cwestiwn	Ymateb
Sut penderfynir gyda phwy y byddwn yn rhannu dosbarth?	Byddai angen meini prawf clir ar gyfer rhannu grwpiau blwyddyn, byddai'r meini prawf hwn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i – ddilyniant dysgwyr, elfennau cymdeithasol h.y. grwpiau ffrindiau.
A fydd disgyblion o'r un flwyddyn ysgol (os ydynt yn cael eu gwahanu) ar wahân i weddill eu grŵp blwyddyn drwy'r amser?	Byddwn yn annog yr ysgol i ddod â grwpiau blwyddyn at ei gilydd ar gyfer rhai gweithgareddau, ond byddai hynny'n ddibynnol ar yr amserlen, staff ac argaeledd gofod addysgu priodol. Byddai egwylliau ac amseroedd cinio yn cael eu trefnu fel bod grwpiau blwyddyn gyda'i gilydd.
A fyddai rhagor o ddisgyblion yn yr ysgol yn golygu na fyddai digon o le/offer i bawb?	Mae cynllun yr ysgol wedi cymryd capasiti ychwanegol i ystyriaeth yn ystod y cam dylunio i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol. Os bydd angen offer ychwanegol, byddai'r ysgol yn gallu darparu'r hynny.

6. Adroddiad yr Ymgynghoriad Disgyblion

Cynhyrchwyd fersiwn plant a phobl ifanc o'r sesiwn ymgynghori â disgyblion hefyd. Gallwch gael mynediad at y ddogfen [yma](#).

ATODIAD E

Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd drwy Lythyrau a Negeseuon E-bost

Ymateb 1:	
Crynodeb o Sylwadau	Ymateb y Cynigywyr
Mae'n bleser gennym weld y galw am leoedd mewn ysgolion Eglwys yng Nghymru, fodd bynnag, mae sawl eitem yn y ddogfen ymgynghori yn peri pryder i ni: - Yn adran 3 mae gwybodaeth am faint o ddisgyblion sydd wedi ymgeisio am lefydd, nifer y disgyblion sydd wedi apelio a chanlyniad yr apelïadau hynny. Nid yw'r wybodaeth hon fel arfer ar gael i ysgolion na chyrrff llywodraethu, sydd braidd yn amheus.	Gofynnodd y Corff Llywodraethu am y wybodaeth hon gan yr Awdurdod Lleol er mwyn cael cyd-destun o'r galw am dderbyniadau yn yr ysgol yn ddiweddar. Mae'r wybodaeth a gyhoeddwyd o fewn y ddogfen ymgynghori ar gael ar gais gan Dderbyniadau Ysgol . Mae'r Awdurdod Lleol yn cyhoeddi data cyffredinol yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru. Mae gwybodaeth ar apelïadau, a cheisiadau a dderbynnir hefyd wedi'u

	cynnwys yng Nghanllawiau Gwybodaeth yr Ysgol a gyhoeddir gan yr Awdurdod Lleol.
- Yn Adran 4, mae data am niferoedd disgyblion dros y 5 mlynedd diwethaf a rhagamcaniadau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Yn y 5 mlynedd diwethaf, mae twf cyson a chynaliadwy wedi bod yn Ysgol Llanbedr, sy'n gwneud i ni feddwl bod y rhagamcaniadau disgyblion yn anghywir. Rydym yn cydnabod bod gwallau'n debygol o godi gydag unrhyw offeryn rhagweld, fodd bynnag, os oes gwallau sylweddol, mae hynny'n codi amheuan ynghylch rhai o'r rhagamcaniadau eraill.	Nid yw'r Corff Llywodraethu'n gallu amddiffyn y data a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol. Mae'r ffigurau hyn yn rhan o'r data mae Awdurdod Lleol yn ei gynhyrchu bob blwyddyn. Mae'r rhagamcaniadau ar gyfer pob ysgol yn seiliedig ar niferoedd presennol ac yn adlewyrchu'r niferoedd diweddaraf yn y dosbarth Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1. Bydd unrhyw ostyngiadau yn y niferoedd hyn yn cael effaith ar y rhagamcaniadau cyffredinol i'r dyfodol.
- Yn adran 4 yn y dewis a ffeirir, mae'n nodi bod yr ysgol eisoes â chapasiti ar gyfer 126 o ddisgyblion llawn amser. Sut ydych chi wedi gallu cynnwys y capasiti ychwanegol hwn o ystyried bod yr ymgynghoriad ar gyfer adeilad newydd Ysgol Llanfair yn cynnig cadw at niferoedd presennol Ysgol Llanfair, sef 105?	Dim ond ymgynghoriad cyn cynllunio a gwblhawyd ar gyfer safle newydd yr ysgol. Roedd yr ymgynghoriad cyn cynllunio yn nodi bod angen cynyddu capasiti'r ysgol i ddarparu ar gyfer y cynnydd mewn galw yn sgil y datblygiad tai newydd. Yr ymgynghoriad ffurfiol hwn yw'r unig ymgynghoriad sydd wedi cael ei gwblhau mewn perthynas â chapasiti'r ysgol.
- Mae adran 5 yn cymharu canlyniadau'r adroddiad cyflwr gydag ysgolion lleol eraill, ac ymddengys ei fod yn amlygu'r gwahaniaeth rhwng Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn. Os byddai Ysgol Llanfair yn ehangu, ni ddylai hyn gael effaith niweidiol ar Ysgol Pentrecelyn sy'n ymddangos fel bygythiad.	Mae'r cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth hon gael ei darparu. Bydd y cynnig yn mynd i'r afael â'r angen lleol sydd ynghlwm â datblygiad tai diweddar yn y pentref, sydd wedi cynyddu'r galw am lefydd.
- Bydd cynyddu'r capasiti yn Ysgol Llanfair er bod llefydd ar gael mewn ysgolion cyfagos yn arwain at gynnydd mewn lleoedd gwag yn yr ardal, sy'n mynd yn erbyn amcan addysg Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru.	Codwyd y pwynt hwn gyda'r Awdurdod Lleol, ac maen nhw o'r farn bod angen i lefydd priodol gael eu darparu yn y llefydd cywir. Byddai unrhyw leoedd gwag yn cael eu rheoli'n briodol.
Ymateb 2	
Crynodeb o Sylwadau	Ymateb y Cynigwyr
Dymunwn nodi ein bod yn siomedig fod yr ymgynghoriad yn bodoli yn y lle cyntaf. Tra bod dwy ysgol yn bodoli, yn agos at ei	Mae proses dderbyniadau'r ysgol yn seiliedig ar ddewis rhieni. Ni ellir anfon disgyblion i ysgol benodol oni

<p>gilydd, rydym yn cwestiynu pam na ellid gyrru'r disgyblion ychwanegol i Ysgol Pentrecelyn yn hytrach na chynyddu capasiti Ysgol Llanfair?</p>	<p>bai bod y rhiant wedi dewis yr ysgol honno. Cyfeirir at ysgolion fel yr 'ysgol addas agosaf' sy'n cymryd i ystyriaeth dewisiadau ieithyddol a ffydd. Mae dewisiadau rhieni'n golygu bod disgyblion yn gallu mynychu unrhyw ysgol cyn belled â bod llefydd ar gael yno. Unwaith y bydd yr ysgol wedi cyrraedd ei uchafswm o ran niferoedd derbyn, bydd disgyblion yn cael eu cyfeirio at eu hail ddewis.</p>
<p>Oni ddylid gweld unrhyw newid yn niferoedd Llanfair yng ngoleuni cynllunio ehangach gan y Sir ar ddyfodol a hyfywedd ysgolion eraill yn y dalgylch, yn enwedig yng nghyd-destun twf addysg Gymraeg a darpariaeth ysgolion categori 1 y sir? Dydi'r ychydig sydd yn y ddogfen ymgynghorol ddim yn ddigonol i wyntyllu hynny'n llawn. Beth yw'r weledigaeth sydd wedi ei gynnig gan y Cyngor? Lle mae'r ffurf "route map" i addysg Gymraeg yn yr ardal? Mae'r ymgynghoriad hwn yn digwydd mewn vacuum ac ar sail ad hoc. Mae hyn yn enwedig o siomedig gan fod y Cyngor wedi bod trwy ymgynghoriad sylweddol ar addysg yn yr ardal ychydig flynyddoedd yn ôl. Dyna arweiniodd at adeiladu ysgol newydd yn Llanfair yn y lle cyntaf. Penderfyniad y Cyngor oedd peidio uno dwy Ysgol. Byddem felly'n disgwyl i'r Sir yrru strategaeth i dyfu'r ddwy Ysgol law yn llaw. Yn wir, gwnaethpwyd addewid bryd hynny i beidio 'anghofio' Ysgol Pentrecelyn ac fe addawodd Arweinydd y Cyngor i gefnogi'r Ysgol. Ers hynny nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o'r Cyngor yn gweithredu'n rhagweithiol i hyrwyddo addysg Gymraeg categori 1.</p>	<p>Mae'r Corff Llywodraethu'n credu mai'r Awdurdod Lleol ddylai gynnig sylwadau ar y mwyafrif o bryderon a godwyd.</p> <p>Mae'r ddogfen ymgynghori'n canolbwyntio ar yr angen i adolygu'r nifer derbyn yn seiliedig ar y galw lleol.</p> <p>Mae'r corff llywodraethu'n ymwybodol bod yr Awdurdod Lleol wedi cyhoeddi'r 'map llwybr' ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg - Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg yn ddiweddar. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg mewn Addysg ac yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf.</p>
<p>Sut gellir honni y bydd y llefydd ychwanegol yn Llanfair yn mynd i gryfhau'r Gymraeg pan nad yw hi'n hysbys pa ffrwd iaith fydd y disgyblion hynny'n ei fynychu? Mae'r ymgynghoriad yn portreadu darlun annheg ac yn creu canfyddiadau amheus – yn enwedig mewn perthynas ag ysgolion eraill. e.e. Be mae'r frawddeg yma'n ei</p>	<p>Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu egluro camsyniad am yr ysgol. Nid yw disgyblion yn Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd mewn ffrydiau Saesneg a Chymraeg, sy'n awgrymu rhyw fath o wahaniad. Caiff pob disgybl eu dysgu yn yr un dosbarth a phrif iaith y sefydliad yw Cymraeg.</p>

olygu?

“Er na fyddai cynnal y drefn bresennol yn cael effaith negyddol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd, gallai diffyg gweithredu i fynd i'r afael â chynnydd cydnabyddedig yn y galw am lefydd a thystiolaeth o ddewis rhieni, gynyddu'r risg y bydd effaith andwyol ar ansawdd a safon addysg yn yr ardal ehangach.” Mae hyn yn cael ei ailadrodd yn y ddogfen ac mae'n dweud y gallai addysg mewn ysgolion eraill ddioddef os nad oes cynnydd yn niferoedd Llanfair. Sut? Ar ba sail?

Yn ogystal â hynny, mae'r ysgol hefyd yn darparu ar gyfer disgyblion sy'n dechrau eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg ac yn newid i gyfrwng y Gymraeg wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae bob amser wedi bod yn flaenoriaeth i'r Ysgol a'r Corff Llywodraethu sicrhau fod pob disgybl sy'n gadael yr ysgol yn 11 oed yn gallu cyfathrebu'n rhugl drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae disgyblion yn defnyddio'r ddwy iaith mewn gwersi ond y Gymraeg yw prif iaith y ddarpariaeth.

Mae'r Ysgol bob amser wedi ymfalchïo yn ei henw da am hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru gyda phob dysgwr ac wedi cael sawl llwyddiant Eisteddfod yr Urdd er enghraifft.

Mae'r data diweddaraf yn nodi bod 55 o blant yng Nghyfnod Allweddol 2 yn Ysgol Llanfair, ac roedd 36 ohonynt yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac 19 yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg. Yn seiliedig ar hyn, mae'n deg tybio y byddai cynyddu'r capasiti yn cynyddu'r niferoedd yn y ffrwd Gymraeg yn Ysgol Brynhyfryd.

Y patrwm cyffredinol yn Ysgol Llanfair yw bod disgyblion sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn mynd ymlaen i'r ffrwd Gymraeg yn Ysgol Brynhyfryd.

Nid yw Ysgol Llanfair yn colli disgyblion i'r ffrwd Saesneg yn Ysgol Brynhyfryd gan eu bod eisoes yn ymgymryd â'u haddysg drwy gyfrwng y Saesneg yn Ysgol Llanfair.

Dylid nodi, fodd bynnag, ers i Ysgol Brynhyfryd waredu'r ffrwd ddwyieithog, bod rhaid i rieni, yn

	<p>arbennig rhai o gartrefi di-Gymraeg, ddewis rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn wedi gwneud y penderfyniad yn anoddach ar gyfer disgyblion o gartrefi di-Gymraeg.</p> <p>Mae'r ffigurau diweddaraf er enghraifft yn dangos bod 46 o ddisgyblion yn y ffrwd cyfrwng Saesneg [blwyddyn 7-11] yn Ysgol Brynhyfryd a oedd wedi trosglwyddo o ysgolion Categori 1 Sir Ddinbych.</p> <p>[Mae rhagor o wybodaeth am ein polisi iaith Gymraeg ar gael ar ein gwefan ac yn ein prospectws].</p>
<p>Byddai ymgynghoriad cytbwys yn esbonio'n well be mae hyn yn ei olygu. Byddai hefyd yn esbonio y gallai fod manteision cadarnhaol o beidio ehangu niferoedd Llanfair gan y byddai'n help i gynnyddu niferoedd ysgolion eraill ac felly'n cryfhau hyfywedd ysgolion yr ardal. Byddem yn gwerthfawrogi esboniad o be mae'r frawddeg hon yn ei olygu a pha bwynt mae'n trio ei wneud.</p>	<p>Mae'r frawddeg yn cyfeirio at gynigion i amlinellu'r risgiau posibl sydd ynghlwm a'r status quo. Pe na baem yn bwrw ymlaen â'r cynnig, y prif risg i'r ysgol fyddai'r perygl o apeliadau derbyn yn cael eu cynnal gan bod modd i'r adeilad ddarparu ar gyfer nifer uwch na'r capasiti presennol. Byddai hyn yn cael effaith ar weithrediad effeithiol yr ysgol. Mae'r cyfeiriad at yr ardal ehangach yn cydnabod, yn yr amgylchiadau hynny lle na ellir bodloni'r galw gan rieni, bod risg o orfod defnyddio adnoddau i fodloni gofynion cludiant er mwyn i ddisgyblion fedru cael mynediad at addysg, yn hytrach na gwario'r cyllid ar ddarpariaeth addysg o ran dysgu ac addysgu.</p>
<p>Dywed y ddogfen: <i>“O'i osod yng nghydestun yr heriau sy'n wynebu darpariaeth addysgol a chynaliadwyedd darpariaeth addysgol o ansawdd uchel, mae'r Corff Llywodraethu yn cyflwyno'r cynnig hwn i gynnyddu capasiti ...”</i> Be sy'n anghynladwy am ddarpariaeth addysgol o ansawdd uchel yn Ysgol Llanfair? Ydi'r ddogfen yn trio awgrymu fod y cynnydd yn angenrheidiol i gynnal ansawdd uchel yn yr ysgol? Dwi'm yn meddwl fod cwestiwn am ansawdd uchel Ysgol Llanfair, na chwaith ei bod yn ddibynnol ar gael tri</p>	<p>Mae'r ymgynghoriad yn ceisio cynnig dull a reolir i fodloni galw ychwanegol am lefydd yn ardal Llanfair drwy'r cynnydd bychan yng nghapasiti'r ysgol. Os bydd yr ysgol yn parhau gyda chapasiti o 105, mae perygl y bydd yn rhaid i'r ysgol dderbyn disgyblion ychwanegol drwy'r broses apeliadau. Fe allai hyn roi pwysau ar ddosbarthiadau ac fe allai olygu bod mwy na 30 mewn dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2. Byddai'r cynnydd bychan a gynigir yn</p>

<p>plentyn ychwanegol y flwyddyn i gynnal hynny! Gofynnwn am esboniad pellach o be mae'r frawddeg yma'n feddwl.</p>	<p>cynyddu hyfywedd ariannol dosbarth ychwanegol a allai ddarparu gyfer 18 disgybl ychwanegol yn yr ysgol.</p>
<p>Yn ol yr ymgynghoriad: <i>“Lle bydd cyllid yn caniatáu, bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio cynyddu nifer y lleoedd ysgol sydd ar gael, er mwyn ateb y galw lleol, gwella'r dosbarthiad o leoedd ysgol a chynnig mwy o ddewis i rhieni.”</i> Sut fydd cynnyddu niferoedd yn Llanfair a chanoli pellach ar blant yn yr ysgol honno yn “gwella'r dosbarthiad o leoedd ysgol”? Onid yw denu mwy o ddisgyblion o ddalgylch eang i un ysgol yn milwrio yn erbyn hynny'n llwyr?</p>	<p>Nid yw polisi derbyniadau'r Awdurdod Lleol yn defnyddio dalgylchoedd wrth benderfynu ar dderbyniadau'r ysgol. Mae dewisiadau rhieni'n golygu bod disgyblion yn gallu mynychu unrhyw ysgol cyn belled bod llefydd ar gael yno.</p> <p>Mae'r mwyafrif o'r disgyblion presennol yn Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn byw o fewn 3 milltir o safle'r ysgol. Mae Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn ysgol Eglwys dwy ffrwd a allai gael effaith ar ddewisiadau rhieni.</p> <p>Byddai'r cynnig yn gwella dosbarthiad lleoedd ysgolion drwy gynyddu capasiti Ysgol Llanfair i fodloni'r galw lleol yn sgil y datblygiad tai diweddar. Gallai methiant i weithredu olygu na fyddai modd bodloni dewis y rhieni o ran yr ysgol addas agosaf.</p>
<p>Mae nodi Gradd Cyflwr C i Ysgol Pentrecelyn yn anheg. Os ydi hynny'n adlewyrchiad teg o gyflwr yr ysgol (sef <i>“Gwael. Yn dangos diffygion sylweddol a/neu nid yw'n gweithredu fel y bwriadwyd.”</i>) mae'n rhaid gofyn pam fod y Cyngor wedi caniatáu i'r cyflwr ddirywio i'r fath raddau a pham nad yw hi'n gwneud unrhywbeth ynglyn â hynny? Daw hynny â ni nôl i'r pwynt blaenorol am fethiant y cyngor i gefnogi'r ysgol ers agor yr ysgol newydd yn Llanfair. Os yw'r cyngor wedi buddsoddi i fynd i'r afael ag unrhyw “ddiffygion sylweddol” yn yr ysgol yna pam fod Gradd Cyflwr C yn ymddangos yn y ddogfen?</p>	<p>Credir mai'r awdurdod lleol ddylai gyflwyno sylwadau ynghylch y pwyntiau a godwyd am Ysgol Pentrecelyn.</p> <p>Mae'r cod trefniadaeth ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynigydd ddarparu gwybodaeth am gyflwr safle'r ysgol a allai gael ei heffeithio o ganlyniad i'r cynnig. Mae'r gradd cyflwr a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol yn seiliedig ar arolygon cyflwr adeiladau'r ysgolion.</p>
<p>“Os na weithredir y cynnig, gallai'r ysgol fod yn wynebu diffyg cyllideb yn y tymor hir.” Onid yw hyn yn wir am bob ysgol yn y sir?! Gellir cynnig gwrth-ddadl yn dweud y</p>	<p>Cynhyrchwyd y ddogfen ar yr effaith bosibl ar Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd. Mae'r datganiad y cyfeirir ato'n adlewyrchu sefyllfa'r ysgol.</p>

<p>byddai peidio gweithredu'r cynnig yn help i osgoi diffyg cyllideb mewn ysgolion eraill! Eto, mae hyn yn adlewyrchu sut mae'r ddogfen yn anghybwys ac yn portreadu darlun anheg.</p>	
<p><i>"Mae'n bosibl y bydd gostyngiad yng nghostau cludiant gan y bydd mwy o bobl yn gallu sicrhau lle yn yr ysgol dewis 1af agosaf. Byddai hyn yn arbediad i'r awdurdod lleol yn hytrach na'r ysgol."</i> Does dim modd honni hyn oni bai fod sicrwydd mai dim ond o ddalgylch Ysgol Llanfair y bydd unrhyw ddisgyblion ychwanegol yn dod. Os fyddan nhw'n dod o tu hwnt i hynny yna mi fydd costau ychwanegol i'r sir!</p>	<p>Nid yw'r Awdurdod Lleol yn gweithredu dalgylchoedd. Dewis rhieni sy'n dylanwadu ar ddewis ysgolion yn hytrach na'r lleoliad.</p> <p>Mae'r cynnig yn ceisio adlewyrchu'r galw lleol yn sgil datblygiad tai newydd yn y pentref.</p> <p>Bydd cludiant ond yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod Lleol yn unol â'r Polisi Cludiant i Ddysgwyr. Pe na baem yn bwrw ymlaen â'r cynnig, mae perygl y byddwn yn wynebu costau cludiant er mwyn bodloni ail ddewis rhieni. Mae'n bosibl na fydd rhieni sy'n dymuno dewis Ysgol Llanfair er nad hi yw'r ysgol briodol agosaf iddynt yn gymwys am Gludiant ac felly mae'n bosibl na fydd costau ychwanegol.</p>
<p>Yn olaf, buasem yn ddiolchgar o gadarnhad gan y cyngor o faint o ddisgyblion o Ysgol Llanfair sydd wedi mynd i'r ffrydiau Cymraeg a Saesneg yn Ysgol Brynhyfryd fesul blwyddyn dros y 5 mlynedd diwethaf?</p>	<p>Mae data a ddarparwyd gan yr Awdurdod Lleol yn nodi bod 57 o ddisgyblion wedi mynd ymlaen o Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd i Ysgol Brynhyfryd rhwng blwyddyn 7 a blwyddyn 11, gyda 34 yn y ffrwd Gymraeg a 23 yn y ffrwd Saesneg.</p> <p>Nid yw Ysgol Llanfair yn colli disgyblion i'r ffrwd Saesneg yn Ysgol Brynhyfryd gan eu bod eisoes yn ymgymryd â'u haddysg drwy gyfrwng y Saesneg yn Ysgol Llanfair. I roi hyn mewn cyd-destun, yn yr un gronfa ddata, roedd 46 o ddisgyblion yn y ffrwd cyfrwng Saesneg [blwyddyn 7-11] yn Ysgol Brynhyfryd a oedd wedi trosglwyddo o ysgolion Categori 1 Sir Ddinbych.</p>

ATODIAD F

Crynodeb o'r ymatebion drwy'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad Ffurfiol

Cwestiwn 1 A ydych o blaid y Cynigion?

	Cyfanswm
Ydw	2
Nac ydw	1
Cyfanswm yr ymatebion	3

Cwestiwn 2 Darparwch sylwadau mewn perthynas â'r cynnig ac unrhyw awgrymiadau ar gynigion amgen y dylid eu hystyried yn y blwch isod.

Sylwadau/Opsiynau amgen a awgrymwyd	Ymateb y cynigwyr
Sylw 1:	
Er nad yw cynyddu maint dosbarthiadau'n ddelfrydol, fel cymuned, mae'n rhaid cydnabod bod angen llefydd ychwanegol. Mae'r pentref yn tyfu ac felly mae'n rhaid i'r ysgol dyfu yn yr un modd. Mae gostyngiad mewn 'Gwrthodiadau Ysgol Addas Agosaf' yn amlwg yn rhywbeth da.	Cytuno
Sylw 2:	
Ni wnaeth yr ymgynghorai adael unrhyw sylwadau	Amherthnasol
Ymateb 3:	
Mae ysgol Llanfair eisoes yn denu mwy na'i chyfraniad teg o blant o ddalgylch ehangach o'i gymharu â'r gorffennol yn sgil yr arian a wariwyd ar yr ysgol newydd. Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar ysgolion cyfagos. Dim ond 29 disgybl sydd yn Ysgol Pentrecelyn 2 filltir i ffwrdd.	<p>Nid yw polisi derbyniadau'r Awdurdod Lleol yn defnyddio dalgylchoedd wrth benderfynu ar dderbyniadau'r ysgol. Cyfeirir at ysgolion fel 'ysgol addas agosaf' sy'n cymryd i ystyriaeth dewisiadau ieithyddol a ffydd. Fodd bynnag, mae dewisiadau rhieni'n golygu bod disgyblion yn gallu mynychu unrhyw ysgol cyn belled bod llefydd ar gael.</p> <p>Mae'r mwyafrif o'r disgyblion presennol yn Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn byw o fewn 3 milltir o safle'r ysgol. Mae Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn ysgol Eglwys dwy ffrwd a allai gael effaith ar ddewisiadau rhieni.</p>